

Eisteddfod Llanwrtyd yn dathlu'r 70

Cynhaliwyd y 70fed Eisteddfod eleni ar ddydd Sadwrn, 24ain Medi yn y Neuadd Fictoria, Llanwrtyd.

Yn y bore, y plant lleol oedd yn cystadlu. Llongyfarchiadau i Life Taranenko am ennill y cwpan sy'n rhoddedig gan Delyth Hurley er cof am y diweddar Madam Carlton fel y cystadleuydd mwyaf amryddawn yn sesiwn y bore.

Tro'r ieuentid o dalgylch ehangach oedd hi yn y prynhawn ac unwaith eto roedd yna gystadlu brwd o safon uchel. Dyfarnodd y beirniaid Berian Lewis a Glesni Thomas mai loan Joshua Mabbutt o Aberystwyth oedd y cystadleuydd gorau yn sesiwn y prynhawn ac fe enillodd gwpan hardd yn rhoddedig gan Charcroft Electronics Ltd, Llanwrtyd.

Llywyddion yr Eisteddfod eleni oedd Paul Newman a Vicky Mellor o Charcroft Electronics Ltd yn y bore ac Annabelle Thomas o Gefngorwydd yn y prynhawn. A hithau'n gant oed, soniodd Annabelle Thomas am oes aur yr eisteddfodau bach lleol pan gynhaliwyd eisteddfod bron ym mhob capel a phentref megis Beulah, Llangamarch, Moriah Abergwesyn, Hermon Tirabad, Gosen Cefngorwydd a heb anghofio Capel y Babell ar Fynydd Epynt. Erbyn heddiw, dim ond Eisteddfod Llanwrtyd sy'n parhau. Dymunodd Annabelle pob llwyddiant a hir oes i'r ŵyl flynyddol yma sy'n rhan bwysig o'n hanes a'n treftadaeth ni fel cenedl.

Yn anffodus, doedd Eleri Davies, Sheffield, ond gynt o Lanwrtyd, yn methu bod yn bresennol fel llywydd yr hwyr o ganlyniad i fod yn anhwylyd. Fe ddarllenodd y Cadeirydd, Hywel Davies, araith fer ar ran Eleri, o'r llwyfan. Estynnwn ddymuniadau gorau i Eleri.

Stephanie Harvey-Powell o Aberdar oedd yn fuddugol ar yr Her Unawd – camp yn wir gan bod deg wedi cystadlu mewn cystadleuaeth a oedd yn safonol tu hwnt. Jane Altham-Watkins o Abertawe oedd yn fuddugol ar yr Her Adroddiad ac enillwyd cystadleuaeth y côr gan Gôr Merched Llanfair-ym-Muallt. Gwyn Jones ddaeth i'r brig ar yr Emyrn Dôn dros 60 ac o'r naw yn cystadlu ar yr Unawd Gymraeg, Efan Williams, Lledrod oedd yn fuddugol. Cafodd Sara Davies o Landysul noson lwyddiannus gan ennill yr Unawd allan o Sioe Gerdd a'r Emyrn Dôn rhwng 18 a 60.

Diolch i Gôr Merched Llanfair-ym-Muallt am gefnogi'r eisteddfod eto eleni gan ennill y wobwr gyntaf a'i harweinyddes, Ionwen Davies, yn ennill y Baton i'r arweinydd gorau. Mae'r Baton yn rhoddedig gan Lesley Keates er cof am ei gŵr, John, gynt o Hampstead, Llanwrtyd.

John Meurig Edwards o Aberhonddu gafodd ei gadeirio ac roedd wedi ysgrifennu cerdd ar y teitl 'Y Gystadleuaeth' gan ddefnyddio 'Loge Las' fel ei ffug-enw – yn cynrychioli bro ei febyd, sef yr ardal fynyddig rhwng Pont-rhyd-y-groes ac Ysbyty Ystwyth. Llongyfarchiadau iddo ac hefyd i Gaenor Mai Jones o Ronda Cynon Taf a ddaeth yn ail.

Diolch arbennig i Heather Davis, sef cyfeilydd y bore, ac i Siân Gwawr Davies, cyfeilydd y prynhawn a'r hwyr.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb wnaeth gyfrannu at lwyddiant yr ŵyl: y cystadleuwyr; yr holl noddwyr; yr arweinyddion; y stiwardiaid a'r ffrindiau fu'n gweini bwyd yn y gegin.

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Llanwrtyd 2023 ar ddydd Sadwrn, 23ain Medi.

Gan mai hon yw'r 70fed eisteddfod, bwriedir creu llyfryn cyn bo hir yn cynnwys hanes yr eisteddfod ar hyd y blynyddoedd. Os oes gennych unrhyw wybodaeth am hanes Eisteddfod Llanwrtyd boed yn luniau, adroddiadau papurau newydd neu hanesion a.y.y.b. a fyddoch cystal â chysylltu â Susan Price ar 01591 610303.